

**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
a gynhaliwyd yn hybrid ddydd Iau, 27^{ain} Hydref 2022 am 1.30pm**

PRESENNOL: Y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Wyn Evans, Marc Davies, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Geraint Wyn Hughes, Ceris Jones a Caryl Roberts.

HEFYD YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet.

Y Cynghorwyr Euros Davies, Rhodri Evans a Gareth Lloyd.

SWYDDOGION A OEDD YN BRESENNOL:

Eifion Evans, Prif Weithredwr, Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Partneriaethau a Pherfformiad, Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi a Pherfformiad, Rob Starr, Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil, Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd, Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu a Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; Rhidian Jones a Carol Thomas, Cyfieithwyr.

(1:30pm –2:03pm)

1 Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac eglurodd bwrpas yr ailgynnull.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Endaf Edwards am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol neu fuddiant sydd yn rhagfarnu.

3 Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft 2022-27

Bu i'r Pwyllgor ailgynnull fel y cytunwyd i ystyried y materion a godwyd yn y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd 14^{eg} Hydref 2022 – nodir diwygiadau/ymholiadau yn y tabl isod:

| Cyfeirnod tudalen | Ymholiad/Diwygiad |
|-------------------|---|
| Tudalen 7 | Wedi diwygio'r diagram a manylion gweinyddiaeth wleidyddol Cyngor Sir |

| | |
|---------------------------------------|---|
| | Ceredigion gan gynnwys canlyniadau is-etholiad Llanbedr Pont Steffan. |
| Tudalen 12 Colofn 2 | Wedi cynnwys diweddariad ar y ffigurau band eang ar gyfer Ceredigion: “Mae lobio sylweddol gan Gyngor Sir Ceredigion ac eraill wedi arwain at ddarpariaeth o 31.8% o fand eang ffeibr llawn gan roi gallu dros 100 Mbps. Mae'r lawrlwythiad cyfartalog ar gyfer y sir gyfan o 79mbps ar hyn o bryd yn un o'r lefelau uchaf ar gyfer awdurdod lleol gwledig”. |
| Tudalen 13* Colofn 1 Rhes 1 | Wedi dileu'r dyblygu ar y camau gweithredu sy'n ymwneud â gwaith amddiffyn arfordirol. Y derminoleg y cytunwyd arni yw “cwblhau'r gwaith”. |
| Tudalen 17 Bwled 1 | Wedi diwygio'r derminoleg. Mae'r uchelgais yn darllen fel a ganlyn yn awr: “Darparu ar gyfer anghenion gofal ein poblogaeth” |
| Tudalen 17 Bwled 7 | Wedi rhoi'r geiriad “Croesawu a chefnogi adsefydlu ffoaduriaid”. |
| Tudalen 17 Troednodyn | Wedi ychwanegu troednodyn i egluro rôl Cysylltwyr Cymunedol. |
| Tudalen 18 Colofn 3 Paragraff 3 | Wedi addasu'r derminoleg. Mae'r cymal yn awr yn darllen “darparu ar gyfer anghenion gofal” |
| Tudalen 19 Colofn 2 Rhes 9 | Wedi rhoi'r geiriad: “Byddwn yn parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth helpu ffoaduriaid a'u hailsefydlu yn ein cymunedau”. |
| Tudalen 19 Colofn 2 Rhes 10 | Ar ôl ystyried y camau i gyflenwi'r Amcan Creu Cymunedau Gofalgar ac lach, nodwyd ac ychwanegwyd cam arall: “Cefnogi cydlyniad cymunedol yng Ngheredigion” |
| Tudalen 20 Colofn 2 Rhes 6 | Ar ôl ystyried y camau i gyflenwi'r Amcan Creu Cymunedau Gofalgar ac lach, nodwyd ac ychwanegwyd cam arall: “Ymateb rhagweithiol a chadarn i argyfyngau sifil posibl: <ul style="list-style-type: none"> • Brwydro yn erbyn lledaeniad clefydau trosglwyddadwy • Paratoi ar gyfer, ac ymateb i, argyfyngau sifil |
| Tudalen 20* Rhes olaf | Wedi ychwanegu eglurhad ar rôl Cysylltwyr Cymunedol er eglurder. |
| Tudalen 29 Bwled 5 | Cyfeirir at “Ddarbwyllo pobl i beidio â pherchen ar ail gartrefi yn y sir” ym maniffesto Plaid Cymru: <p><i>“Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i leihau ail dai yn y sir. Yn benodol, byddwn yn ymgyrchu dros newid y Ddeddf Gynllunio i sicrhau y bydd angen cael caniatâd cynllunio cyn troi cartref preswyl yn gartref gwyliau neu dŷ gwyliau ar osod. Yn unol â'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru byddwn yn cefnogi'r defnydd o'r systemau cynllunio, eiddo a threthiant er mwyn delio â'r broblem.”</i></p> <p>Efallai y bydd yr Aelodau am wneud argymhelliad i'r Cabinet i ddiwygio'r cam hwn os oes angen.</p> |
| Tudalen 29 Bwled 7 | Wedi cywiro'r geiriad - “Annog cadw enwau lleoedd Cymraeg”. |
| Tudalen 29 Bwled 8 | Wedi diwygio'r uchelgais ar dudalen 29 sy'n ymwneud â mater ffosffadau: “Rydym wedi cydnabod difrifoldeb y mater sy'n gysylltiedig â lefelau ffosffadau ar hyd Dyffryn Teifi yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Gwneir pob ymdrech drwy'r Bwrdd Rheoli Maetholion i ddod o hyd i atebion cynnar i'r broblem.” |
| Tudalen 31* Colofn 1 Rhes 9 | Wedi diwygio'r cam sy'n ymwneud â llifogydd i gynnwys Llanybydder, Llandysul ac aneddiadau eraill ar hyd Dyffryn Teifi: “Gweithio gyda'r holl asiantaethau perthnasol i ddod o hyd i atebion i lifogydd yn Llanybydder, Llandysul ac aneddiadau eraill ar hyd Dyffryn |

| | |
|--|---|
| | Teifi, gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn arwain ar ymyrraeth yn eu rôl fel rheolwyr perygl llifogydd ar gyfer prif afonydd". |
| Tudalen 31 Colofn 1 Rhes 10 | Wedi cywiro'r geiriad - "Annog cadw enwau tai a lleoedd Cymraeg". |
| Tudalen 33 Colofn 1 Rhes 6 | Ar ôl ystyried y camau i gyflenwi'r Amcan Creu Cymunedau Gofalgar ac lach, nodwyd ac ychwanegwyd cam arall: "Monitro ansawdd aer yng Ngheredigion a pharhau i gymharu ag amcanion a safonau cenedlaethol" |
| Tudalen 34* Rhes olaf | Wedi rhoi eglurhad ar rôl Cysylltwyr Cymunedol er eglurder |
| Adroddiad Adborth yr Ymgynghoriad | |
| Cyfeirnod tudalen | Ymholiad/diwygiad |
| Tudalen 11* | Gofynnodd Aelod faint o ymatebion Cymraeg a gafwyd i'r ymgynghoriad? Roedd 51 ymateb i gyd, 3 yn Gymraeg a 48 yn Saesneg. |
| Tudalen 11* | Cyfeiriodd Aelod at Adroddiad Adborth yr Ymgynghoriad, tudalen 11, Cwestiynau Monitro Cydraddoldeb, sef bod cyfanswm yr ymatebion yn 35 (ar 23 Medi) ond nad yw'r ffigurau yn rhoi cyfanswm o 35. Mae pob siart yn yr adran Monitro Cydraddoldeb yn awr yn dangos y nifer o gwestiynau na chafodd eu hateb ac yn rhoi cyfanswm o 51 ymateb. Mae hyn ar dudalennau 12-15 fersiwn Gymraeg yr adroddiad a thudalennau 11-15 y fersiwn Saesneg. Mae un eithriad, sef Cwestiwn 24 sy'n ymwneud â laith - Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu'n Gymraeg? Mae hyn am fod ymatebwyr yn gallu dewis sawl ateb. |

**Mae'n nodi materion penodol a godwyd yn y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd 14/10/2022*

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad a ganlyn:

- Bod yr Aelodau'n ystyried ac yn cytuno ar Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-2027 gan gynnwys yr Amcanion Llesiant Corfforaethol cyn i'r Cabinet a'r Cyngor ei hystyried.

Yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth o'r ymholiadau a'r diwygiadau uchod, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymhell i'r Cabinet gymeradwyo Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-2027, gan gynnwys yr Amcanion Llesiant Corfforaethol, yn amodol ar ystyried yr argymhelliad a ganlyn:

Newid pwynt bwled 5 ar dudalen 29 (a nodir yn y tabl uchod) gyda'r canlynol:

"Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â materion ail gartrefi, perchnogaeth cartrefi gwyliau a throi adeiladau preswyl yn llety gwyliau drwy ofyn am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth o dan y Ddeddf Gynllunio a'r Gwasanaeth Trethi".

Diolch y Cadeirydd i Rob Starr yn arbennig ac i'w dîm am eu hymatebion ac am egluro'r

materion a godwyd.

4 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhawyd bod cofnodion y Cyfarfod Cydlynu a gynhaliwyd 14 Hydref 2022 yn gofnod gywir o'r trafodion ac nad oedd materion yn codi o'r cofnodion hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor am fod yn bresennol a chaeodd y trafodion am 14.03pm.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2022

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____